

Gofynion Amgylcheddol Strategol Diwydiant Dŵr Cymru

Mae Gofynion Amgylcheddol Strategol Diwydiant Dŵr Cymru (WWISER) yn nodi disgwyliadau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o gwmnïau dŵr sy'n gweithredu yng Nghymru neu'n dibynnu ar adnoddau o Gymru. Mae'n amlinellu'r gofynion y dylai pob cwmni eu hystyried wrth gyflawni eu rhwymedigaethau amgylcheddol. Wedi ei baratoi gan CNC, mae'n diffinio'r disgwyliadau statudol ac anstatudol, a'r dull disgwyliedig ar gyfer Adolygiad Prisiau 2029.

Dylid darllen y WWISER ochr yn ochr â'r canlynol:

1. Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol ar gyfer Ofwat (SPS) Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, a'i olynwyr.
2. Canllawiau proses Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol (NEP) Cymru, a methodoleg Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol Diwydiant Dŵr Lloegr (WINEP) pan fo'n berthnasol i ddalgylchoedd neu weithrediadau trawsffiniol Lloegr.
3. Papurau sbarduno'r NEP sy'n nodi'r camau gweithredu penodol y mae'n rhaid eu cyflawni i fod yn gymwys i gael eu cynnwys yn y NEP.
4. Methodoleg Adolygiad Prisiau 29 Ofwat.
5. Aseidiadau Perfformiad Amgylcheddol blynyddol cwmnïau dŵr (gellir dod o hyd i adroddiadau perfformiad yma: [Perfformiad cwmnïau dŵr – Ofwat](#)).
6. Canllawiau a gyhoeddwyd gan reoleiddiwr i'r diwydiant dŵr.

Mae'r NEP yn nodi'r camau y mae angen i gwmnïau dŵr eu cymryd i fodloni eu gofynion deddfwriaethol amgylcheddol, a blaenoriaethau cysylltiedig llywodraethau. Mae cwmnïau dŵr yn cyflwyno'r NEP i Ofwat fel rhan o'u cynllun busnes i gael ei gymeradwyo ar gyfer cyllid.

Mae gwaith rheoli dŵr yng Nghymru yn cael ei lywio gan sawl fframwaith cynllunio statudol (Atodiad A) sy'n cynnwys:

1. Cynlluniau rheoli basn afon
2. Cynlluniau rheoli adnoddau dŵr
3. Cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff
4. Cynlluniau rheoli perygl llifogydd / strategaethau rheoli perygl llifogydd lleol
5. Cynlluniau rheoli traethlin
6. Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
7. Cynlluniau sychder cwmnïau dŵr

Ategir y gwaith o reoli dŵr ledled Cymru hefyd gan gyfres o ddogfennau strategol a thystiolaeth (Atodiad A), sy'n cynnwys:

8. Datganiadau ardal
9. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025

Mae'r WWISER yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr ystyried yr holl fframweithiau hyn yn eu gwaith cynllunio busnes.

Dylai cwmnïau dŵr fodloni'r disgwyliadau hyn yn y deilliannau, yr ymrwymadau o ran perfformiad, a'r penderfyniadau buddsoddi a nodir yng nghynlluniau busnes Adolygiad Prisiau 29. **Dyma'r gofynion sylfaenol, a disgwylir i gwmnïau fynd y tu hwnt i'r gofynion hyn pan fydd budd amgylcheddol clir a/neu gefnogaeth gref i gwsmeriaid er mwyn cyflymu cynnydd ar gyfer byd natur, cydnerthedd a gwasanaeth.**

Mae'r WWISER wedi eu hysgrifennu ar gyfer ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, neu'n dibynnu ar adnoddau o Gymru, gan gynnwys penodiadau ac amrywiadau newydd sy'n gwasanaethu cwsmeriaid Cymru. Gall rheoleiddwyr, grwpiau cwsmeriaid, a rhanddeiliaid eraill hefyd ei ddefnyddio i lywio dyluniad, ariannu, a chyflawniad canlyniadau amgylcheddol yng Nghymru, yn ogystal ag i gynorthwyo dealltwriaeth o gynlluniau busnes cwmnïau dŵr.

Blaenoriaethau ac egwyddorion Llywodraeth Cymru

Mae'r Strategaeth Ddŵr i Gymru gan Lywodraeth Cymru (2015) yn gosod cyfeiriad 20 mlynedd ar gyfer dull integredig a chynaliadwy o reoli pob math o ddyfroedd mewndirol, aberol ac arfordirol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ei gweledigaeth ar gyfer dŵr yng Nghymru yw:

'Byddwn yn sicrhau bod Cymru yn parhau i feddu ar amgylchedd dŵr ffyniannus sy'n cael ei reoli mewn modd cynaliadwy i gefnogi cymunedau iach, busnesau sy'n ffynnu a'r amgylchedd. Rydym am i bobl Cymru dderbyn gwasanaethau dŵr o'r radd flaenaf sy'n darparu gwerth am arian ac sy'n sicrhau bod pawb yn defnyddio dŵr yn effeithlon, yn ddiogel a gyda pharch.'

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad blaenoriaethau ac amcanion strategol yn gosod blaenoriaethau Ofwat ar gyfer Adolygiad Prisiau 2024, gan ystyried y gwahaniaeth mewn polisi a deddfwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a gweithredu fel pont rhwng polisi'r llywodraeth ac arfer rheoleiddio. Mae'n darparu cyfeiriad strategol i sicrhau bod penderfyniadau Ofwat a chynlluniau busnes cwmnïau dŵr yn cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru. Disgwylir diweddariadau dros dro yn ystod y broses o gynllunio Adolygiad Prisiau 29.

Mae copi i'w gael yma: [Datganiad blaenoriaethau ac amcanion strategol ar gyfer Ofwat, a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991](#).

Adolygiad Prisiau 2029

Adolygiad prisiau Ofwat yw'r broses pum mlynedd sy'n gosod y pris, lefel y buddsoddiad, a'r pecyn gwasanaeth ar gyfer cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y refeniw a ganiateir sy'n pennu biliau cwsmeriaid a lefel / amseriad y buddsoddiad ar gyfer pob cyfnod Cynllun Rheoli Asedau dilynol. Bydd yr adolygiad nesaf, Adolygiad Prisiau 29, yn gosod rheolaethau ar gyfer Cynllun Rheoli Asedau 9 (2030–2035) ac, yn seiliedig ar amserlen sefydledig Ofwat mewn adolygiadau blaenorol, disgwylir iddo ddod i ben gyda phenderfyniadau terfynol yn cael eu nodi ddiwedd 2029 (fel arfer ym mis Rhagfyr).

Drwy'r broses cysylltiadau cyhoeddus, mae Ofwat yn craffu ar gynlluniau busnes cwmnïau i sicrhau eu bod:

- yn cyflawni rhwymedigaethau statudol,
- yn canolbwyntio ar y cwsmer, ac
- yn gosod targedau heriol o ran perfformiad a deilliannau.

Mae Ofwat yn diffinio deilliannau a gefnogir gan ymrwymadau o ran perfformiad. Lefelau ymrwymiad o ran perfformiad yw'r addewidion y mae cwmnïau yn eu gwneud ynglŷn â'r lefelau gwasanaeth y byddant yn eu cyflawni. Mae cwmnïau'n wynebu cymhellion cyflawni deilliannau, yn ymwneud ag enw da ac arian, sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn erbyn lefelau ymrwymiad o ran perfformiad. Defnyddir cyflawniadau rheoli prisiau hefyd fel mecanwaith sy'n nodi'r allbynnau gwella y mae'n rhaid i gwmni dŵr eu cyflawni gyda'r cyllid a ganiateir iddo, gydag adfachu a chymhellion yn seiliedig ar amser yn cael eu cymhwyso os yw'r ddarpariaeth yn hwyr neu heb ei chyflawni.

Ar gyfer Adolygiad Prisiau 29, mae Ofwat yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau gynllunio y tu hwnt i un cynllun rheoli asedau, o leiaf drwy Gynllun Rheoli Asedau 9 (2030–2035) a Chynllun Rheoli Asedau 10 (2035–2040), ac yn ddelfrydol hyd at 2050 (tua Chynllun Rheoli Asedau 12) i gyd-fynd â strategaethau hirdymor Ofwat, cynnal sicrwydd, a galluogi cynllunio hirdymor sy'n osgoi gwariant ofer. Rhaid i gynlluniau nodi sut y bydd pob cwmni'n cyflawni

rhwymedigaethau amgylcheddol a rhwymedigaethau eraill, a dangos darpariaeth effeithlon fel bod cwsmeriaid yn talu eu cyfran deg yn unig.

Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol (NEP)

Yng Nghymru, y NEP yw amserlen CNC o gamau gweithredu amgylcheddol sy'n trosi rhwymedigaethau deddfwriaethol fel y'u nodir ym mhapurau sbarduno'r NEP yn ofynion penodol i safleoedd ar gyfer cwmnïau dŵr. Fe'i cyhoeddir fel set ddata Cymru gyfan a ddefnyddir gan gwmnïau dŵr wrth gynllunio busnes, a gan Ofwat yn ei benderfyniadau yn ymwneud ag adolygu prisiau. Mae Ofwat yn asesu ac yn dyrannu cyllid i'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt drwy lwfansau gwariant gwella a gynhyrchir drwy gynnydd mewn biliau cwsmeriaid.

Mae camau gweithredu'r NEP yn nodi'r rhwymedigaethau newydd, neu wedi eu newid, y mae'n rhaid i gwmnïau dŵr eu bodloni drwy eu buddsoddiad cynllun busnes. Mae'r WWISER hyn yn gosod disgwyliadau'r camau gweithredu, ac mae papurau sbarduno'r NEP yn sefydlu'r meini prawf y mae'n rhaid i gamau gweithredu eu bodloni i gael eu cynnwys yn y NEP. Mae CNC yn cynnal set ddata y NEP a ddefnyddir ym mhenderfyniadau Ofwat, ac yn arfer ei swyddogaethau trwyddedu a rheoleiddio i sicrhau cydymffurfedd.

Mae'r NEP wedi ei gynllunio i wneud y canlynol:

- canolbwyntio ar gyflawni deilliannau;
- cefnogi cyflawni budd amgylcheddol ehangach (gwella gwasanaethau ecosystemau);
- bod â ffocws tymor hwy (hyd at 25 mlynedd);
- cyflwyno dull sy'n canolbwyntio mwy ar systemau a dalgylchoedd sy'n darparu ar gyfer mwy o arloesedd a chydweithio ar draws cwmnïau dŵr, gan gynnwys hwyluso defnydd mwy o atebion sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd a natur;
- cefnogi cyd-ddylunio, cyd-gyflawni, a chyd-ariannu atebion drwy gynnwys trydydd partion mewn proses dryloyw a chydweithredol;
- gwneud y defnydd gorau o ddata sydd ar gael a'u gwella;
- cefnogi arloesedd.

Bydd camau gweithredu'r NEP yn cael eu dyrannu yn erbyn y papur sbarduno perthnasol a'r cod sbarduno cysylltiedig. Byddant yn cael eu dosbarthu fel gofyniad Statudol (S) neu Anstatudol (NS), fel y'u diffinnir yn Nhabl 1.

Rhwymedigaeth	Diffiniad
Statudol (S)	Mae rhwymedigaethau statudol yn deillio o ofynion deddfwriaethol a'r angen i gydymffurfio â rhwymedigaethau a osodir yn uniongyrchol gan statud neu gan ganiatadau, trwyddedau, ac awdurdodiadau a roddir gan Weinidog yn Llywodraeth Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, CNC neu gorff arall o awdurdodaeth gymwys. Mae rhwymedigaethau statudol eraill yn cynnwys cyfarwyddiadau gweinidogol a bodloni gofynion cynllunio penodol. Er ei bod yn bwysig deall costau a buddion y mesurau y mae eu hangen, mae'n rhaid cyflawni'r rhwymedigaethau statudol hyn o hyd.
Anstatudol (NS)	Nid yw rhai disgwyliadau yn cael eu llywio gan ofynion statudol. Efallai y bydd angen cyhoeddus nad yw o reidrwydd wedi ei ategu gan Ddeddf benodol neu ddarn o ddeddfwriaeth. Dylai cwmnïau dŵr ddangos bod gofyniad amgylcheddol a/neu gefnogaeth i gwsmeriaid, a bod buddsoddiadau o'r fath yn darparu'r gwerth gorau i gwsmeriaid yn y tymor hir.

Tabl 1: Diffiniad o rwymedigaethau statudol ac anstatudol

Gall camau gweithredu'r NEP gynnwys ymchwiliadau (INV), monitro (MON), a buddsoddi cyfalaf (IMP – gweithredu). Gan fod adnoddau yn gyfyngedig, mae'r NEP yn darparu fframwaith ar gyfer ystyried yr holl bolisïau, canllawiau, a gyrwyr i flaenoriaethu camau gweithredu, gan benderfynu beth a gyflawnir, pryd, a pham. Gall rhai buddsoddiadau ymestyn ar draws sawl cyfnod cyflawni cynllun rheoli asedau i gyflawni deilliannau hirdymor.

Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

CNC yw'r rheoleiddiwr amgylcheddol a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac y mae hefyd yn darparu cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth i bartneriaid a rhanddeiliaid i gefnogi aliniad polisi amgylcheddol a'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Ei brif bwrpas yw cyflawni egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac i ymgorffori datblygu cynaliadwy ar draws ei holl swyddogaethau, yn unol â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gan weithio o fewn fframwaith deddfwriaethol cydweithredol Cymru, mae CNC yn ymgysylltu â chwmnïau dŵr a rhanddeiliaid i lunio pob adolygiad prisiau yr NEP, gan nodi cyfleoedd i gyflawni nodau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a llesiant. Yn ystod cyfnod y cynllun rheoli asedau canlynol, bydd CNC yn sicrhau bod yr NEP y cytunwyd arni yn cael ei chyflawni. Mae hyn yn cynnwys [asesiad o'r perfformiad amgylcheddol](#) blynyddol o gwmnïau dŵr, a rheoleiddio gweithgareddau cwmnïau dŵr, megis gollyngiadau dŵr gwastraff a gwaith tynnu dŵr.

Y diwydiant dŵr yng Nghymru

Mae cwmnïau dŵr yng Nghymru yn weithredwyr rhwydwaith sy'n darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff o fewn ardaloedd diffiniedig. Mae Cymru hefyd yn cyflenwi dŵr fel adnodd i gwmnïau yn Lloegr er budd eu cwsmeriaid. Rhaid i'r cwmnïau hyn hefyd lynu wrth ofynion y WWISER mewn perthynas â'u gweithgareddau a'u rhwymedigaethau i liniaru unrhyw effaith ar Gymru o'r adnodd y maent yn ei ddefnyddio.

Mae cwmnïau dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu yng Nghymru neu'n effeithio ar Gymru yn cynnwys:

- **Dŵr Cymru** – yr ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth mwyaf yng Nghymru. Mae'n darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i'w holl gwsmeriaid, yn ogystal â darparu gwasanaethau carthffosiaeth yn unig i rannau o ogledd-ddwyrain Cymru, gan gynnwys Wrecsam. Mae'n gwmni nid-er-elw heb gyfranddalwyr.

- **Hafren Dyfrdwy** – yn darparu gwasanaethau dŵr yn unig yn Wrecsam a rhannau o Sir Ddinbych a Sir y Fflint, tra'n darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng ngogledd Powys. Is-gwmni rheoleiddiedig Severn Trent ccc ochr yn ochr â Severn Trent Water.
- **United Utilities** – yn cyflenwi cwsmeriaid yng ngogledd-orllewin Lloegr â dŵr sy'n tarddu o ychydig o ddalgylchoedd yng ngogledd a chanolbarth Cymru.
- **Severn Trent Water** – yn cyflenwi cwsmeriaid yng nghanolbarth Lloegr â dŵr sy'n tarddu o Gymru.
- **South Staffordshire Water** – yn cyflenwi cwsmeriaid yn Lloegr â dŵr sy'n tarddu o Gymru.

Mae CNC yn arwain y gwaith o ddatblygu NEP ar gyfer Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy, sydd wedi eu lleoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ac yn gweithio ar y cyd ag United Utilities, South Staffordshire Water a Severn Trent Water, a rheoleiddwyr (sy'n gweithredu yn bennaf yn Lloegr) i lywio eu mesurau amgylcheddol.

Mae cwmnïau penodiadau ac amrywiadau newydd hefyd yn darparu gwasanaethau dŵr a/neu garthffosiaeth i safleoedd yng Nghymru ar hyn o bryd trwy gytundebau swmpgyflenwad a/neu ollwng â deiliaid perthnasol, gan gynnwys:

- **Last Mile Group** (penodiadau ac amrywiadau newydd), Icosa gynt, sy'n darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i ychydig o safleoedd ledled Cymru (yn gweithredu'n bennaf yn Lloegr).
- **Independent Water Network** (penodiadau ac amrywiadau newydd), sy'n darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i ychydig o safleoedd ledled Cymru (yn gweithredu'n bennaf yn Lloegr).
- **Albion Eco** (penodiadau ac amrywiadau newydd), sy'n cyflenwi dŵr i gwsmeriaid dibreswyl yng ngogledd Cymru (yn gweithredu'n gyfan gwbl yng Nghymru).

Mae nifer o drwyddedai cyflenwi dŵr a charthffosiaeth, a elwir yn fanwerthwyr, a all gynnig gwasanaethau dŵr yn unig (awdurdodiad manwerthu cyfyngedig) i gwsmeriaid dibreswyl (busnesau ac ati) yng Nghymru. Mae rhestr y trwyddedeion cyflenwi dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu yng Nghymru ar gael yma: [Trwyddedau a thrwyddedeion – Ofwat](#).

Er bod penodiadau ac amrywiadau newydd yn rhan o'r diwydiant dŵr ehangach, nid ydynt yn destun adolygiadau prisiau; felly, dim ond mewn perthynas â'u dyletswyddau statudol y mae cyfeiriadau at y sector yn y ddogfen hon yn berthnasol i benodiadau ac amrywiadau newydd, ac nid i ofynion na mecanweithiau ariannu sy'n gysylltiedig ag adolygiadau prisiau.

Heriau

Yng Nghymru mae cwmnïau dŵr, rheoleiddwyr, llywodraeth leol, a chymunedau gyda'i gilydd yn wynebu heriau sylweddol sy'n ymwneud â'r amgylchedd dŵr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- mwy o ddigwyddiadau llygredd;
- poblogaeth sy'n cynyddu a threfoliad;
- asedau a seilwaith sy'n heneiddio;
- addasu i'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys digwyddiadau tywydd eithafol;
- pwysau defnydd tir;
- cyfyngiadau adnoddau naturiol;
- dirywiad bioamrywiaeth; a
- fforddiadwyedd.

Mae gan gwmnïau dŵr yng Nghymru rôl hanfodol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r heriau, ac wrth gyflawni'r targedau cysylltiedig a nodir yn y fframweithiau cynllunio statudol (Atodiad A).

Cyd-destun y Polisi Amgylcheddol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) (2025) yn sefydlu elfennau deddfwriaethol allweddol cyd-destun Polisi Amgylcheddol Cymru. Gyda'i gilydd, maent yn creu fframwaith integredig ar gyfer gwneud penderfyniadau, rheoleiddio a chynllunio, sy'n rhoi cyfrifoldeb amgylcheddol wrth ei wraidd. Rhaid i waith cynllunio busnes cwmnïau dŵr sy'n effeithio ar Gymru neu ei hadnoddau lynu wrth y cyd-destun polisi hwn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymgorffori datblygu cynaliadwy ar draws gwneud penderfyniadau cyhoeddus, fel bod Cymru'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol ag ecosystemau gwydn, yn lleihau ei hól troed amgylcheddol byd-eang, ac yn cynllunio ar gyfer addasu i'r hinsawdd o fewn terfynau amgylcheddol i ddiogelu treftadaeth naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rhaid i gyrrff cyhoeddus osod a gwneud cynnydd tuag at amcanion llesiant a chymhwyso'r pum ffordd o weithio (tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio, a chynnwys), a chefnogi cynnydd tuag at y saith nod cenedlaethol. Mae'r ffocws ar yr amgylchedd yn fwyaf penodol yn *Cymru gydnerth* ac yn *Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang*.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Mae adran 6 yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill, gan gynnwys ymgwymerwyr statudol megis cwmnïau dŵr, i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, a thrwy wneud hynny hyrwyddo cydnerthed ecosystemau. Mae Cymru wedi ymrwymo i atal colli bioamrywiaeth erbyn 2030 a chyflawni adferiad byd natur erbyn 2050. Disgwylir i awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys cwmnïau dŵr, brif ffrydio bioamrywiaeth ac adfer cydnerthed ecosystemau ar draws pob swyddogaeth, gan gymryd camau rhagweithiol, cymesur, ac wedi eu harwain gan dystiolaeth, wedi eu hategu gan gynlluniau ac adroddiadau adran 6. Mae hefyd yn gosod ymrwymïadau newid hinsawdd ac, o dan adran 79, yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau rheoli draenio a gwastraff dŵr gael eu cynhyrchu. Yn ogystal, mae'n cyflwyno datganiadau ardal, sy'n cyflawni dimensiwn gofodol polisi adnoddau naturiol drwy arwain camau gweithredu ar y raddfa briodol—gan CNC a thrwy ddylanwadu ar eraill—i fwyafu buddion, alinio polisïau, a gwella cydnerthed ecosystemau.

Mae Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2025 yn darparu fframwaith ar gyfer targedau bioamrywiaeth statudol ar gyfer gwelliannau a chamau gweithredu i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth, ac yn ailddatgan egwyddorion megis 'y llygrwr sy'n talu'. Mae'r Bil yn cadarnhau bod rhaid i unrhyw darged a osodir gyfrannu at un neu ragor o'r canlynol: (i) cynyddu toreithrwydd rhywogaethau brodorol; (ii) gwella cydnerthed ecosystemau; (iii) cynyddu amrywiaeth enetig.

Ochr yn ochr â'r cyd-destun polisi Cymreig hwn, rhaid i waith cynllunio cwmnïau dŵr ar gyfer yr NEP ystyried deddfwriaeth berthnasol arall hefyd, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):

- Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 (Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) sy'n cwmpasu ystyriaethau o'r canlynol:

- Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013
- Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994
- Cyfarwyddiadau Dyfroedd Pysgod Cregyn a Ddiogelir (Cymru a Lloegr) 2016 (y Cyfarwyddiadau Pysgod Cregyn)
- Safonau ansawdd amgylcheddol a gofynion cemegion (y Gyfarwydddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol)
- Ardaloedd dŵr yfed gwarchoddedig
- Deddf Eogiaid a Physgodfeydd Dŵr Croyw 1975 (SFFA 1975)
- Rheoliadau Llyswennod (Cymru a Lloegr) 2009
- Y Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol a Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019
- Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009
- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd)
- Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (1981) (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995)
- Rheoliadau Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr 2007, a Rheoliadau Cynllun Sychder 2005, cyfarwyddiadau a roddir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y gofyniad i gynhyrchu cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder cwmnïau dŵr
- Deddf Dŵr (Mesurau Arbennig) 2025
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016
- Deddf Newid Hinsawdd 2008 a Rheoliadau Newid Hinsawdd 2021 (Cymru)
- Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a'i Strategaeth Genedlaethol ar Reoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol
- Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 mewn perthynas â rheoli adnoddau biolegol a slwtsh

Mae papurau sbarduno'r NEP yn nodi'r rhwymedigaethau cyffredinol sy'n ymwneud â chwmnïau dŵr ar gyfer y ddeddfwriaeth berthnasol, a disgwyliadau penodol Adolygiad Prisiau 29 y mae'n rhaid i'w cynlluniau busnes eu bodloni. Pan fo'n briodol o ran Adolygiad Prisiau

29, bydd papur sbarduno ar gyfer pob cyd-destun polisi amgylcheddol uchod. Wrth fodloni meini prawf y papur sbarduno, rhaid i gwmnïau dŵr hefyd fodloni gofynion y fframwaith cynllunio statudol (Atodiad A) a disgwyliadau'r WWISER fel y nodir isod.

Disgwyliadau

Mae cyd-destun polisi Cymru a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig fel y'i nodir uchod yn berthnasol i dir sy'n eiddo i gwmnïau dŵr, dalgylchoedd y maent yn gweithio ynddynt, lleoedd lle maent yn cyflawni eu swyddogaethau, a lleoedd yr effeithir arnynt gan eu swyddogaethau. P'un a ydyw gweithred NEP yn statudol neu'n anstatudol, rhaid i gwmnïau ddangos bod angen amgylcheddol clir, cymorth i gwsmeriaid, a'i fod yn darparu'r gwerth hirdymor gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd, nid o reidrwydd y gost isaf. Rhaid i gynlluniau busnes esbonio sut y bydd y cwmni'n bodloni'r gofynion, y disgwyliadau, a'r dull gweithredu.

Mae rhai disgwyliadau yn anstatudol bellach, ond gallant ddod yn statudol. Gall targedau polisi a thargedau amgylcheddol newid hefyd. Nid yw'r ddogfen hon yn gynhwysfawr; rhaid i gwmnïau gydymffurfio â'r holl gyfreithiau perthnasol, targedau'r Llywodraeth a gofynion statudol o hyd.

Rhaid i gwmnïau dŵr fynd i'r afael ag unrhyw ddifrod sy'n deillio o'u gweithgareddau, a disgwylir iddynt warchod, adfer, a gwella'r amgylchedd. Mae'n ofynnol i bob cwmni dŵr nodi'r gwasanaethau a'r gwelliannau y mae'n bwriadu eu darparu i gyflawni ei rwymedigaethau.

Mae CNC yn disgwyl i gwmnïau dŵr yng Nghymru ddefnyddio'r broses adolygu prisiau i hyrwyddo rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a darparu buddion amgylcheddol ehangach. Dylai cwmnïau weithredu ar y cyfleoedd allweddol yn y datganiadau ardal, Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 (gweler Atodiad A), a dilyn amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Dulliau disgwyliedig

Mae CNC yn disgwyl i gwmnïau dŵr ddangos arweinyddiaeth wrth warchod a gwella'r amgylchedd dŵr drwy wneud y canlynol:

1. **Ymgorffori gwerth amgylcheddol yn y broses o wneud penderfyniadau**

Dylid gwerthfawrogi'r amgylchedd, a dylai fod wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau; dylid ei ymgorffori yng nghanol gwaith cynllunio cwmnïau dŵr a'u broses o wneud penderfyniadau, gan gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a thynnu ar dystiolaeth o ddatganiadau ardal, Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, y Polisi Adnoddau Naturiol, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae CNC yn disgwyl i gynlluniau busnes cwmnïau dŵr ddangos aliniad clir â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, polisi cenedlaethol perthnasol, a fframweithiau cynllunio statudol, gan gynnwys cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr. Dylai cynlluniau fabwysiadu dull cyfannol aml-fudd ar draws y dalgylch ar draws pob maes busnes, gan integreiddio cyflenwad dŵr, dŵr gwastraff, ansawdd aer, gwarchod a gwella bioamrywiaeth, adfer cydnherthed ecosystemau ac adnoddau biolegol.

Wrth wneud hynny, dylai cwmnïau gydnabod y rhyngddibyniaethau rhwng pwysau amgylcheddol, ymddygiadau cwsmeriaid, a gwydnwch systemau hirdymor, gan ymgorffori'n benodol yr angen i addasu i risgiau newid hinsawdd yn y dyfodol.

2. Dulliau gofodol

Disgwylir i gynllunio a chyflawni fabwysiadu dulliau gofodol sy'n blaenoriaethu ymyriadau wrth y ffynhonnell, ac yna rheolaethau llwybrau, a dim ond wedyn datrysiadau derbynle diwedd pibell. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod risgiau amgylcheddol yn cael eu hosgoi pan fo modd, a phan nad yw'n bosibl, yn cael eu trin yn y ffordd fwyaf effeithiol a chymesur, ar draws y raddfa ofodol berthnasol.

3. Cyflawni deilliannau lluosog

Pan fydd buddsoddiad cydnaws yn cael ei ddefnyddio i ddatrys problem o dan un sbardunydd, dylai'r gwaith hefyd helpu i gyflawni nodau sbardunyddion eraill pan fo modd. Er enghraifft, dylai cael gwared ar rwystr i lwybr pysgod hefyd geisio gwella bioamrywiaeth, rheoli risgiau rhywogaeth estron oresgynnol, a gwella llif adnoddau dŵr. Bydd angen tystiolaeth o'r deilliannau lluosog hyn ar y camau datblygu opsiynau a manyleb camau gweithredu.

Dylai cwmnïau dŵr yng Nghymru flaenoriaethu technegau systemau draenio cynaliadwy ac atebion ehangach sy'n seiliedig ar natur fel y dull diofyn i reoli dŵr wyneb, lleihau llwythi cemegol, a lleddfu pwysau ar garthffosydd cyfun. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â fframweithiau cynllunio, sy'n ymgorffori rheoli llifogydd / dŵr wyneb yn seiliedig ar risg, ac integreiddio seilwaith gwyrdd, bioamrywiaeth, ac amwynderau yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae polisi Llywodraeth Cymru a CNC ar orlifoedd storm yn pwysleisio lleihau niwed amgylcheddol a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol—trwy reoli ffynhonnell, gwahanu ac ôl-osod systemau draenio cynaliadwy—yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar ddatrysiadau diwedd pibell neu ehangu storfa lwyd.

4. Cryfhau partneriaethau

Cefnogir cydweithio ar draws dalgylchoedd a thirweddau fel bod ecosystemau yn gweithredu'n fwy naturiol, bywyd gwyllt yn elwa, a chymunedau yn dod yn fwy gwydn i newid hinsawdd. Mae CNC yn disgwyl i gwmnïau ddangos arweinyddiaeth drwy gydweithio'n effeithiol â phartneriaid a chwsmeriaid, rhannu data mewn ffordd dryloyw, gwneud penderfyniadau cadarn yn seiliedig ar dystiolaeth, a gweledigaeth hirdymor glir sy'n cefnogi amcanion amgylcheddol a rennir ar gyfer Cymru hyd at 2050.

5. Defnyddio datrysiadau newydd ac arloesol

Dylid cyflawni deilliannau amgylcheddol ehangach a'r gwerth gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd drwy arferion diwydiant gwell, dylunio a chynllunio gwell, a gwaith rheoli tir mwy effeithiol. Disgwylir i gwmnïau ystyried opsiynau sy'n darparu buddion lluosog, rheoli risgiau'n gymesur, ac yn rhannu dysgu yn rhagweithiol ar draws y sector.

Rhaid i gwmnïau fabwysiadu prosesau gwneud penderfyniadau arloesol a chynaliadwy, asesu ystod eang o opsiynau—gan gynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur—cymhwyso asesiadau oes gyfan a chylch bywyd, a chynllunio ar gyfer senarios gwaethaf posibl rhesymol, megis sychder a llifogydd.

Dylai cwmnïau geisio cydweithio a gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r achosion cronig, i fyny'r afon, a gofodol yn hytrach na'r effeithiau aciwt ar y derbynle ar ddiwedd y bibell. Bydd y dull hwn yn cyflawni'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a datrysiadau mwy cadarn. Cydnabyddir y gallai dulliau o'r fath gymryd mwy o amser, ac felly anogir ymgysylltu'n gynnar.

Dylai cynlluniau busnes hefyd ddangos sut y bydd cwmnïau yn cyflawni eu dyletswyddau statudol, gan gynnwys cynnal a gwella bioamrywiaeth, diogelu iechyd asedau, buddsoddi i gynnal hyblygrwydd yn y dyfodol, ac osgoi penderfyniadau sy'n arwain at gostau hirdymor neu asedau wedi eu gadael.

Atodiad A

Fframweithiau cynllunio statudol

Cynlluniau rheoli basn afon

Mae cynlluniau rheoli basn afon yn sefydlu fframwaith integredig—gan gynnwys epil gyfarwydddebau—ar gyfer gwarchod a defnyddio'r amgylchedd dŵr yn gynaliadwy. Maent yn gosod amcanion ansawdd amgylcheddol ar gyfer dŵr daear a dŵr wyneb (gan gynnwys aberoedd a dyfroedd arfordirol) ac yn crynhoi'r rhaglenni o fesurau y mae eu hangen i gyflawni'r amcanion hyn. Rhaid i gwmnïau dŵr sicrhau bod gweithgareddau presennol a gweithgareddau yn y dyfodol, megis tynnu dŵr gwastraff wedi ei drin a dychwelyd dŵr gwastraff, yn cynorthwyo cyflawniad yr amcanion hyn, yn atal dirywiad mewn cyrff dŵr, a—phan fydd gofynion cynllun rheoli basn afon yn croestorri â deddfwriaeth arall o fewn y fframwaith—yn cydymffurfio â'r safon fwyaf llym sy'n berthnasol.

Cynlluniau rheoli adnoddau dŵr

Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd statudol i baratoi a chynnal cynllun rheoli adnoddau dŵr fel y nodir yn adran 37A-37D o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Rhaid i gwmnïau gynllunio i sicrhau bod cyflenwad dŵr dibynadwy ar gael ar gyfer unigolion a busnesau, ac i warchod yr amgylchedd am o leiaf 25 mlynedd. Mae'r datrysiadau y mae eu hangen i gyflawni deilliannau'r cynllun rheoli adnoddau dŵr yn ffurfio'r elfen cyflenwad a galw o gynlluniau busnes, ac mae angen iddynt gydbwysu rheoli galw, gwella sut mae adnoddau dŵr yn cael eu dyrannu, a datblygu adnoddau newydd. Mae creu tyniadau dŵr cynaliadwy a rheoli'r risg o ddirywiad a difrod difrifol i'r amgylchedd yn rhan annatod o broses y cynllun rheoli adnoddau dŵr. Gofynnir i gwmnïau yng Nghymru nodi eu cyrchfan amgylcheddol a sut y bydd yn cynorthwyo cynaliadwyedd a chydnerthedd amgylcheddol ar draws ei pharthau adnoddau dŵr dros y tymor byr, tymor canolig, a'r hirdymor. Ar gyfer Cymru, dylent ddefnyddio

[fframwaith ymchwilio i gyrchfannau amgylcheddol UKWIR](#). Mae hyn yn amlinellu blaenoriaethu a nodi'r camau y gellid eu cymryd yn y tymor byr, tymor canolig, a'r hirdymor. Rydym hefyd yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer cyrchfannau amgylcheddol mewn canllawiau atodol sy'n rhan o ganllawiau cynllunio adnoddau dŵr. Bydd unrhyw gamau gweithredu cyrchfannau amgylcheddol a nodwyd o fewn y cynllun rheoli adnoddau dŵr nad ydynt yn rhan o'r cydbwysedd cyflenwad a galw yn cael eu nodi o fewn y cynllun busnes fel rhan o'r NEP.

Cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff

Mae cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff yn cael eu datblygu i sicrhau cynaliadwyedd seilwaith draenio a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Byddant yn nodi sut y mae cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn bwriadu ymestyn, gwella, a chynnal system draenio a dŵr gwastraff gadarn a chydnerth dros yr hirdymor.

Cynlluniau adnoddau dŵr rhanbarthol

Mae pum grŵp cynllunio rhanbarthol sy'n cynnwys y cwmnïau dŵr a defnyddwyr dŵr eraill wedi eu sefydlu yn Lloegr. Mae pob grŵp rhanbarthol yn cynhyrchu cynllun adnoddau dŵr rhanbarthol. Nid oes gofyniad i gynhyrchu cynllun rhanbarthol yng Nghymru, ond os yw cwmni dŵr yn gweithredu o fewn Lloegr, neu'n rhannu adnoddau trawsffiniol, mae'r parthau adnoddau perthnasol wedi eu cynnwys yn y cynllun rhanbarthol perthnasol. Mae cynlluniau rhanbarthol yn nodi ar lefel strategol sut y bydd cyflenwad dŵr i unigolion, busnesau, diwydiant, mordwyo, ac amaethyddiaeth yn cael ei reoli yn y rhanbarth, yn ogystal â bod yn gyrchfan amgylcheddol ranbarthol. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau rheoli adnoddau dŵr yng Nghymru pan fo'n berthnasol.

Cynlluniau rheoli perygl llifogydd / strategaethau rheoli perygl llifogydd lleol

Cynhelir y gwaith i gynllunio sut i reoli'r perygl o lifogydd gan awdurdodau lleol, megis yr awdurdodau llifogydd lleol arweiniol trwy baratoi strategaethau rheoli perygl llifogydd lleol. Maent yn cynnwys amcanion, mesurau, a chymau gweithredu lleol, sy'n cyd-fynd â Strategaeth Genedlaethol Cymru, er enghraifft drwy nodi ffyrdd integredig o reoli dŵr, draenio cynaliadwy, ac atebion sy'n seiliedig ar natur. Mae CNC hefyd yn paratoi cynlluniau rheoli perygl llifogydd. Er bod y ddeddfwriaeth sy'n gwneud hyn yn ofyniad statudol wedi ei dirymu, mae CNC yn bwriadu parhau i gynhyrchu cynlluniau o'r fath, gyda chynllun cenedlaethol a chynlluniau ar gyfer pob lle.

Cynlluniau rheoli traethlin

Mae cynlluniau rheoli traethlin yn ddogfennau anstatudol sy'n darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli'r arfordir dros y 100 mlynedd nesaf. Eu nod yw nodi a gosod y polisiau rheoli risg arfordirol a ffefrir i leihau'r risgiau i unigolion a'r amgylcheddau datblygedig, hanesyddol a naturiol dros yr hirdymor. Mae cynlluniau rheoli traethlin yn rheoli'r arfordir mewn adrannau o'r enw unedau polisi, ac yn disgrifio sut y bydd y rhain yn cael eu rheoli dros y tymor byr (2005–2025), y tymor canolig (2025–2055) a'r hirdymor (2055–2155). Bydd gan bob uned bolisi un o'r polisiau rheoli canlynol ar gyfer pob cyfnod:

- Cynnal y Llinell, drwy gynnal neu newid y safon bresennol o warchodaeth
- Symud y Llinell, drwy adeiladu amddiffynfeydd newydd ar yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r amddiffynfeydd gwreiddiol (er nad yw hyn wedi ei gymhwyso yng Nghymru)
- Adlinio a Reolir, sy'n galluogi'r draethlin i symud yn ôl ac ymlaen, gyda gwaith rheoli i reoli neu gyfyngu'r symud
- Dim Ymyrraeth Weithredol, pan nad oes buddsoddiad mewn amddiffynfeydd arfordirol, ac felly mae prosesau naturiol yn cael parhau i greu arfordir sy'n esblygu

Er nad yw cynlluniau rheoli traethlin yn statudol, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno iddynt gael eu hystyried yn ystod y broses o wneud penderfyniadau lleol, ac mewn perthynas â chynllunio strategol, megis cynlluniau datblygu lleol a strategaethau rheoli perygl llifogydd lleol. Mae cynlluniau rheoli traethlin yn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, ac mae mesurau cysylltiedig wedi eu nodi (mesurau 10 ac 11). Mae Polisi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru SOC-09: Effeithiau ar newid arfordirol a llifogydd, hefyd yn annog cynigion i ystyried cynlluniau rheoli traethlin perthnasol a'u polisiau i helpu i sicrhau na fydd gweithgareddau arfaethedig yn cael effeithiau niweidiol sylweddol ar brosesau arfordirol, ac na fyddant yn arwain at risg uwch o newid arfordirol a llifogydd.

Cynlluniau sychder cwmnïau dŵr

Rhaid i ymgwymerwyr dŵr baratoi a chyhoeddi cynllun sychder yn unol â Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Cynllun Sychder 2005 a Chyfarwyddyd Cynllun Sychder 2017. Dylai'r cynllun nodi sut y byddant yn cynnal cyflenwadau dŵr ac yn gwarchod yr amgylchedd yn ystod cyfnodau o law isel, gan fanylu ar y camau y byddant yn eu cymryd cyn, yn ystod, ac ar ôl sychder, ynghyd â sut y byddant yn asesu, monitro a lliniaru unrhyw effaith amgylcheddol.

Datganiadau ardal

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyfarwyddo CNC i baratoi datganiadau ardal i nodi a chyflawni blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol ar raddfa leol. Mae CNC wedi cyd-gynhyrchu saith datganiad ardal i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Mae pob datganiad ardal yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal honno, yr hyn y gall pob un ohonom ei wneud i wynebu'r heriau hynny, a sut y gallwn reoli ein hadnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y rhain yn cael eu diweddarau'n rheolaidd, a'u gwella o un flwyddyn i'r llall wrth i ni ymgysylltu â mwy o bobl, casglu tystiolaeth newydd, cyflwyno syniadau, a gweithio ar draws ffiniau i greu cyfleoedd.

Dylai'r datganiadau ardal fod yn fan cychwyn i gwmnïau dŵr wrth nodi a chyflawni deilliannau gyda phartneriaid i gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

Mae datganiadau ardal ar gael yma: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Datganiadau Ardal](#).

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025

Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 yn darparu'r sylfaen dystiolaeth statudol ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer cyflwr ecosystemau a chynnydd o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Aseswyd pwysau, cyfleoedd, ac anghenion tystiolaeth yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 i'w gael yma: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Archwilio cynnwys Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025](#).